Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon. **(Mathew 5:6)**

Dyma'r pedwerydd o'r 'Gwynfydau' gan Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd. Mae'r tri cyntaf wedi dangos angen dyn i weld tlodi ei bechod ac i deimlo i'r byw am hynny, er mwyn cael ei arwain gan Dduw yn ei fywyd. Nodwedd arall o'r person sydd yn profi gwaith Ysbryd Duw ynddo ydy'r newyn a'r syched yma am gyfiawnder, ac mae'r Arglwydd yn rhoi'r addewid y caiff ei ddigoni.

Newyn a syched

Dyma rywbeth nad ydym ni'n gwybod llawer amdano yn ein rhan ni o'r byd. Ond gallwn ddweud ei fod yn brofiad sydd yn cryfhau gydag amser, nes iddo gael ei fodloni. Rwy'n cofio ceisio delio gyda'r plant pan oedden nhw'n fach iawn, ac yn cael eu bwydo gan eu mam. Pan oedd hi'n amser bwyd, doedd chwarae ddim yn gwneud y tro; doedd 'dymi' ddim yn bodloni; doedd yr hwiangerdd fwyaf swynol ddim yn tycio – dim ond llaeth y fam! Mae'r person hapus, sydd dan fendith Duw, yn newynu ac yn sychedu am gyfiawnder.

Cyfiawnder

Cyn ceisio manylu ar gyfiawnder, mae'n ddiddorol sylwi nad yw Iesu'n dweud mai'r person sy'n newynu ac yn sychedu am hapusrwydd fydd yn hapus. Dyna feddylfryd llawer yn ein hoes heddiw.

Cyfiawnder y Gyfraith

Y ffordd y mae'r Beibl yn mesur beth sydd yn iawn neu'n anghywir yw trwy'r Gyfraith. Pwrpas Cyfraith Duw yw dangos safon Duw i ni. Wrth i ni ddarllen y Deg Gorchymyn, gallwn weld os ydym yn iawn gerbron Duw. Wrth i ni edrych yn onest ar y meini prawf, fe welwn ein bod yn **"amddifad o ogoniant Duw"** (Rhuf. 3:23). Wrth adeiladu wal, rhaid defnyddio 'lefel' i weld os yw'r wal yn wastad ac yn blwm. Os nad yw'r 'swigen' yn y canol, mae rhywbeth o'i le. Y ffordd i ddod yn iawn gyda Duw yw trwy gyffesu a chydnabod ein pechod, ac ymddiried yn llwyr yng nghyfiawnder rhywun arall, sef Iesu Grist. Mae ei gyfiawnder Ef yn cael ei gynnig i ni yn yr Efengyl oherwydd ei fod wedi cymryd ein pechod arno Fe'i hunan ar groes Calfaria, ac wedi ei **"gyfodi i'n cyfiawnhau ni"** (Rhuf. 4:25).

Cyfiawnder moesol, mewnol

Mae'r cyfiawnder cyntaf yn rhoi heddwch i ni gyda Duw. Ond nid yw'r Cristion

yn berffaith. Mae'n ymwybodol o'r hen natur sy'n hoffi pechod yn ogystal â'r natur newydd sy'n caru Duw. Ond mae newyn a syched ynddo am fod yn hollol lân, yn hollol sanctaidd. Fe weddïodd Robert Murray McCheyne, 'Gwna fi mor sanctaidd ac y mae'n bosib i bechadur cadwedig fod.' Mae'r syched yma'n golygu dau beth:

1. Syched am ryddid o rym pechod

Mae'r Cristion yn dod yn ymwybodol o rym pechod yn ei fywyd. Mae'n ymwybodol o'r frwydr yn erbyn drygioni, ac mae'n dyheu am nerth i goncro'r gelyn yma. Cri Paul oedd: **"Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth?"** (Rhuf. 7:24) Mae'n bosib bod Paul yn defnyddio darlun cryf iawn o'r hen fyd yn yr ymadrodd yna. Mae'n debyg ei fod yn ffordd greulon iawn o arteithio person trwy glymu corff marw ar ei gefn. Mae'r darlun yn bwerus iawn, sef bod y Cristion yn ei natur newydd yn fyw i Dduw. Y corff marw yw ei hen natur bechadurus sydd yn dal i fod ganddo yn y byd hwn. Mae'n ei lesteirio ac yn ei rwystro rhag symud ymlaen i fyw fel y dymunai.

2. Syched am ryddid o fwynhad pechod

Nid yn unig mae'r Cristion yn ymwybodol fod pechod yn dal gydag ef, ond mae'n ymwybodol o bleser pechod. Felly, mae'r Ysbryd Glân yn creu newyn a syched am beidio â mwynhau unrhyw beth sydd yn groes i ddymuniad Duw. Mae'r Cristion yn dymuno plesio Duw, felly, yn hytrach na phlesio'r Hunan, y brenin-fwystfil sydd yn rheoli bywyd pob un ohonom o ran ein natur.

Digoni

Mae'r newyn a'r syched am y cyfiawnder cyfreithiol yn cael ei fodloni'n syth trwy ffydd yn Iesu Grist. Mae'r ail yn cael ei fodloni'n raddol ac yn anghyflawn yn y byd hwn. Pan mae person yn honni ei fod yn gyfiawn ac yn sanctaidd, mae'n ei dwyllo ei hun. **"Os dywedwn ein bod yn ddibechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain"** (1 Ioan 1:8). Mae'r syched yn cael ei ddiwallu i'r graddau y mae'n profi buddugoliaeth yng Nghrist, ond daw'r digoni llwyr yn y gogoniant, pan ddown o flaen Duw heb **"frycheuyn na chrychni"** (Eff. 5:27).

Bendigedig fyddo'r Iesu:
fe welir ei Ddyweddi
heb un brycheuyn arni
yn lân fel y goleuni
ar ddelw Mab y Dyn. (*Spinther*)